National Trust

Ein partneriaid

WALES

# Taith arfordirol Porth Meudwy

Mwynhewch daith arfordirol gylchol o Aberdaron i Borth Meudwy, harbwr pysgota bychan ar ben eithaf Penrhyn Llŷn a fu ar un adeg yn fan i'r pererinion fyrddio cychod ar eu taith i Ynys Enlli.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Porth y Swnt, Henfaes, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd LL53 8BE

Map AO: Landranger 253

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Rhai grisiau serth. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Addas i gŵn: Mae hon yn daith addas i gŵn, ond mae cyfyngiadau ar gŵn ar ochr ddwyreiniol y traeth rhwng yr afon a'r eglwys o 1 Ebrill hyd 30 Medi.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 3 (km: 4.8)

Mynediad: Heriol

Hyd: 1 awr - 2 awr

## Tirwedd

Grisiau serth i fyny i'r pentir ac i lawr i Borth Meudwy

## Cyfanswm y camau: 6

Man cychwyn: Maes parcio Porth y Swnt, Aberdaron, cyfeirnod grid: SH172264

1. Cychwynnwch eich taith yn y maes parcio agosaf at ganolfan ymwelwyr Porth y Swnt.
2. Mae eich llwybr ar y dechrau'n dibynnu ar y llanw. Os yw'r llanw ar drai, ewch trwy'r maes parcio ac i'r traeth. Dilynwch y traeth i'w ben mwyaf gorllewinol nes gwelwch chi risiau yn arwain i fyny'r pentir ar y chwith. Os yw'r llanw'n uchel, ewch i ben pellaf y maes parcio a dilyn y llwybr i fyny i'r dde, gan ddilyn yr arwyddion am Borth Simdde. Pan fyddwch bron â chyrraedd y ffordd, dilynwch Lwybr Arfordir Cymru sy'n arwain i lawr i'r chwith. Dilynwch y llwybr yma nes bydd yn mynd i lawr i'r traeth.
3. Dringwch y grisiau ar ben draw'r traeth, i fyny i'r pentir a throi i'r chwith i Lwybr Arfordir Cymru. Gwyliwch am y frân goesgoch yn plymio i mewn ac allan.
4. Daliwch y llwybr nes cyrhaeddwch chi set arall o risiau. Ewch i lawr y grisiau i harbwr pysgota bychan Porth Meudwy.
5. Trowch i'r dde allan o Borth Meudwy a dilyn y trac nes cyrhaeddwch chi'r ffordd. Trowch i'r dde a cherdded heibio Cwrt, canolfan warden yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Dilynwch y ffordd am hanner milltir nes y cyrhaeddwch chi gyffordd.
6. Trowch i'r dde yn y gyffordd a dal i fynd ar hyd y ffordd. Pan gyrhaeddwch chi'r groesffordd, trowch i'r dde eto. Dilynwch y ffordd am hanner milltir nes y cyrhaeddwch yn ôl yn Aberdaron.

Man gorffen: Maes parcio Porth y Swnt, Aberdaron, cyfeirnod grid: SH172264